

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 2.1.1a

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) a gynhaliwyd ddydd Iau 28 Ionawr 2021 yn Gyfarfod Rhithwir a Ddarlledwyd yn Fyw drwy Microsoft Teams

Aelodau'n Bresennol:

Marcus Longley	Cadeirydd
Paul Mears	Y Prif Weithredwr
Maria Thomas	Is-gadeirydd
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Ian Wells	Aelod Annibynnol
James Hehir	Aelod Annibynnol
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol
Keiron Montague	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Sharon Richards	Aelod Cysylltiol
Nick Lyons	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol / Dirprwy Brif Weithredwr
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Dros Dro)
Gareth Robinson	Prif Swyddog Gweithredu (Dros Dro)
Greg Dix	Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Steve Webster	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Fiona Jenkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd (Dros Dro) (Yn Rhannol)
Clare Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad (Dros Dro)

Erail yn Bresennol

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Lee Leyshon	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ymgysylltu a Chyfathrebu
Cally Hamblyn	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu a Risg
Cathy Moss	Cyngor Iechyd Cymuned BIPCTM
David Jenkins	Cynghorydd Annibynnol i'r Bwrdd (yn Arsylwi)
Patsy Roseblade	Aelod Cyllid Annibynnol newydd (yn Arsylwi)
Paul Dalton	Pennaeth Archwilio Mewnol
Sara Utley	Archwilio Cymru
Mark Jones	Archwilio Cymru (Ar gyfer Eitem 7.3 ar yr Agenda)
Steve Stark	Archwilio Cymru (Ar gyfer Eitem 7.3 ar yr Agenda)
Valerie Wilson	Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol (Ar gyfer Eitem 4.1 ar yr Agenda)
Elisabeth Williams	Rheolwr Cyllid (Ar gyfer Eitem 7.3 ar yr Agenda)
Daxa Varsani	Cyfrifydd Ariannol (Ar gyfer Eitem 7.3 ar yr Agenda)
Brahms Robinson	Dirprwy Bennaeth Nyrsio, Iechyd Meddwl (Ar gyfer Eitem 1.4 ar yr Agenda)
Emma Walters	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

Eitem ar yr Agenda

1

MATERION RHAGARWEINIOL

1.1

Croeso a Chyflwyniadau

Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy sôn am effaith barhaus Covid-19 a gwahoddodd y Bwrdd i fyfyrwyr a chofio'r rheini a oedd yn anffodus wedi colli eu bywydau yn BIPCTM, a oedd yn cynnwys cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd. Talodd y Cadeirydd deyrnged i ymrwymiad yr holl staff gan gydnabod a diolch iddynt am eu cydweithio fel tîm eu proffesiynoldeb, eu gofal a'u hymroddiad parhaus mewn cyfnod mor heriol a digynsail.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y rhai a oedd yn ymuno am y tro cyntaf, y rhai a oedd yn arsylwi a'r cydweithwyr oedd yn ymuno ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. Nodwyd hefyd fformat y digwyddiad yn ei ffurf rithwir gan y Cadeirydd.

1.2

Ymddiheuriadau am Absenoldebau

NODODD yr Aelodau ymddiheuriadau gan Philip White, Aelod Annibynnol.

1.3

Datganiadau o fuddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

1.4

Gwrando a Dysgu ar y Cyd - Stori Claf

Cafwyd stori claf a oedd yn sôn am brofiad claf yn dioddef o ddementia o dan ofal Ward Seren yn y Bwrdd Iechyd.

Amlygodd y stori welliannau a oedd wedi'u gwneud ar yr Ward, rôl y therapyddion yn gofalu am gleifion, a'r dull creadigol, llawn empathi a ddefnyddiwyd gan y tîm.

Diolchodd y Cadeirydd i B Robinson am rannu'r stori a diolchodd iddo am amlygu'r gwelliannau a'r effaith y mae gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn ei chael ar fywydau pobl yn y maes gofal hwn.

Penderfyniad: **NODWYD** Stori'r Claf.

2

AGENDA CANIATÂD

Dywedodd y Cadeirydd fod cwestiynau mewn perthynas â'r agenda caniatâd wedi'u cyflwyno cyn y cyfarfod, ac yr ymatebwyd iddynt i gyd. Nododd yr Aelodau fod y Cwestiynau ac Atebion wedi'u rhannu gydag Aelodau drwy e-bost, ac y byddent hefyd yn cael eu cynnwys yn atodiad i'r cofnodion.

Nid oedd unrhyw adroddiadau y dymunai'r Aelodau eu symud o'r Agenda Caniatâd i'r Prif Agenda.

CANIATÂD I'W CYMERADWYO

2.1.1 Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd 26 Tachwedd 2020 sydd eto i'w Cadarnhau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

2.1.2 Cofnodion y Cyfarfod Mewn Pwyllgor a Gynhaliwyd 26 Tachwedd 2020 sydd eto i'w Cadarnhau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

2.1.3 Diwygiad i'r Rheolau Sefydlog

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog.

2.1.4 Polisi Rheoli Risg

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Polisi.

2.1.5 Polisi ar gyfer Datblygu, Adolygu a Chymeradwyo Polisiâu'r Sefydliad Cyfan

Mae cwestiwn a godwyd ymlaen llaw am yr eitem hon wedi'i gynnwys yn yr atodiad i'r cofnodion hyn ynghyd â'r ymateb a roddwyd.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Polisi.

2.1.6 Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau.

2.1.7 Ymgysylltu â Rhwydwaith Fasgwlar De-ddwyrain Cymru

Mae cwestiwn a godwyd ymlaen llaw am yr eitem hon wedi'i gynnwys yn yr atodiad i'r cofnodion hyn ynghyd â'r ymateb a roddwyd.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** llinell amser arfaethedig y broses ddau gam o ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

2.1.8 Diweddariad ynghylch y Cronfeydd Elusennol hyd at 31 Rhagfyr 2020

Mae cwestiwn a godwyd ymlaen llaw am yr eitem hon wedi'i gynnwys yn yr atodiad i'r cofnodion hyn ynghyd â'r ymateb a roddwyd.

- Penderfyniad:
- **NODWYD** sefyllfa ariannol a pherfformiad buddsoddiad Cronfeydd Elusennol Cyffredinol BIPCTM.
 - **NODWYD** y cyllid grant a'r rhoddion sy'n ymwneud â Covid-19.
 - **CYMERADWYDYD** y cynnig i estyn contract Asiant Rheoli Buddsoddiadau CCLA hyd 31 Gorffennaf 2021.

CANIATÂD AR GYFER NODI

2.2.1 Cofnodion Gweithredu

- Penderfyniad: **NODWYD** y Cofnod o Gamau Gweithredu.

2.2.2 Adroddiad y Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin

- Penderfyniad:
- **NODWYD** y diweddariad.
 - **CEFNOGWYD** gosod y Sêl Gyffredin a amlinellwyd yn yr adroddiad.
 - **CADARNHAWYD** Cam Gweithredu Brys y Cadeirydd a amlinellwyd yn yr adroddiad.

2.2.3 Adroddiad y Prif Weithredwr

- Penderfyniad: **NODWYD** adroddiad y Prif Weithredwr.

2.2.4 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Digidol a Data – 15 Rhagfyr 2020

- Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad cryno.

2.2.5 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl 10 Rhagfyr 2020

- Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad cryno.

2.2.6 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch – 19 Ionawr 2020

- Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad cryno.

2.2.7 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth - 26 Tachwedd 2020, 10 Rhagfyr 2020 ac 11 Ionawr 2021

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiadau cryno.

2.2.8 Adroddiad Crynhoi'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid – 9 Rhagfyr 2020

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad cryno.

2.2.9 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau – 23 Tachwedd 2020

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad cryno.

2.2.10. Archwilio Cymru – Adroddiad Archwilio Blynyddol

Penderfyniad: **NODWYD** Adroddiad Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru.

2.2.11 Adroddiadau'r Cyd-bwyllgorau

Penderfyniad: **NODWYD** Adroddiadau'r Cyd-bwyllgorau.

2.2.12 Ffurflenni Monitro Cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Mis 9

Mae cwestiwn a godwyd ymlaen llaw am yr eitem hon wedi'i gynnwys yn yr atodiad i'r cofnodion hyn ynghyd â'r ymateb a roddwyd.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

3. PRIF AGENDA

3.1 Materion sy'n Codi heb eu hystyried yn y Cofnodion Gweithredu

Nid oedd unrhyw faterion pellach sy'n codi a nodwyd.

4.0 CYD-GREU DIWYLLIANT DYSGU A THYFU GYDA PHARTNERIAID STAFF

4.1 Diweddariad ynghylch Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth

Cyflwynodd V Wilson y diweddariad yn amlygu'r pwyntiau perthnasol yn yr adroddiad.

Yn dilyn y diweddariad, nododd yr Aelodau nad oedd dim byd annisgwyl yn yr adroddiad, gan gydnabod bod dros hanner y camau gweithredu a nodwyd wrthi'n cael sylw eisoes a bod y Tîm Gwella Mamolaeth yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â datblygu'r matricesau aeddfedrwydd.

Tynnodd G Dix sylw at yr heriau yn wynebu'r Tîm Gwella Mamolaeth a'r Bwrdd Iechyd dros yr ychydig fisoedd diwethaf, a nododd nifer o feysydd lle'r oedd angen cynnydd pellach ac amlygodd y risgiau allweddol canlynol:

- Yr oedi wrth fynd i'r afael â'r ôl-groniad Digwyddiadau Difrifol a oedd yn gysylltiedig yn bennaf â heriau o ran y gweithlu. Nododd bod adnodd ychwanegol wedi'i benodi bellach i fynd i'r afael â'r ôl-groniad, gyda thrywydd gwella ar y gweill. Roedd cymorth hefyd yn cael ei roi gan y Tîm Corfforaethol er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad.
- Roedd y gwaith mewn perthynas â Diwylliant ac Ymddygiad wedi'i oedi. Byddai Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn cefnogi'r Tîm o hyn ymlaen er mwyn mynd i'r afael â hyn;
- Cafwyd materion absenoldeb oherwydd salwch o fewn y Tîm Bydwreigiaeth, yn gysylltiedig â Covid-19 a'r angen i staff hunan-ynysu. Roedd archwiliadau craffter yn cael eu cynnal bob pedair awr;

Diolchodd y Cadeirydd i G Dix a V Wilson am gyflwyno'r adroddiad a dywedodd bod adroddiad Coleg Brenhinol y Gynaecolegwyr wedi peri gofid i'r Bwrdd, gan gydnabod bod penderfyniad clir ar waith y byddai gwersi'n cael eu dysgu.

Adleisiodd M K Thomas y diolch i'r Tîm gan gydnabod y gwelliannau parhaus sy'n cael eu gwneud wrth barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod yn ystod genedigaeth er gwaethaf pwysau Covid-19 a'r problemau gweithlu a gafwyd. Ychwanegodd M K Thomas fod y data a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwella Mamolaeth yn rhoi sicrwydd ac yn cynorthwyo'r Aelodau i graffu ar y gwasanaethau.

Dywedodd J Sadgrove wrth y Bwrdd fod adroddiad manwl wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yr wythnos diwethaf yn amlinellu'r heriau gweithlu sylweddol sydd wedi wynebu'r Tîm, a diolchodd hithau i'r Tîm am eu ffocws parhaus ar ddiogelwch menywod sy'n geni babanod ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells mewn perthynas â dyddiadau targed, dywedodd V Wilson fod dyddiadau targed wedi'u cynnwys yn y cynllun gwella.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â'r ddibyniaeth ar y Tîm Gwella i fynd i'r afael â'r materion, sicrhaodd V Wilson eu bod yn ystyried sut y gellid symud y symbyliad o'r Tîm Gwella allan i weddill y gwasanaeth. Dywedodd G Dix y byddai'n croesawu trafodaeth ar sicrhau bod gwell trefniadau wrth gefn ar waith o hyn ymlaen ar draws pob gwasanaeth.

Dywedodd H Daniel y byddai angen cynnal adolygiad pellach ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y gwaith Diwylliant ac Ymddygiad y bu'n rhaid ei oedi yn ystod y pandemig. Nododd yr Aelodau y byddai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael gwybod am y cynnydd diweddaraf yn y maes hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cadeirydd ynghylch pa ymateb y gellid ei roi i fenywod a theuluoedd a allai fod yn teimlo'n bryderus am ddod at y gwasanaeth am eu gofal, dywedodd V Wilson eu bod yn ymgysylltu â

menywod a'u teuluoedd er mwyn deall eu pryderon, a sicrhodd fod y Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau diogel i'w gleifion.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad cynnydd a'r diweddariad.

4.2 **Adroddiad Thematig Adolygiad Clinigol Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP)**

Wrth gyflwyno'r adroddiad mynegodd G Dix, ar ran y Bwrdd Iechyd, ei ymddiheuriadau diffuant am boen, dioddefaint a cholled y menywod a'r rhai hynny yr effeithiwyd arnynt o fewn yr adolygiad hwn. Nododd G Dix na fyddai'r Bwrdd Iechyd byth yn anghofio profiadau'r menywod a'r teuluoedd hyn a dywedodd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn myfyrio ynghylch y gwersi a ddysgwyd er mwyn sicrhau gwelliannau pellach yn y Gwasanaethau Mamolaeth o hyn ymlaen.

Adleisiodd V Wilson y teimladau a fynegwyd gan G Dix a dywedodd fod yr adroddiad yn gyfle i ailystyried y gwaith a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod holl naws yr hyn yr oedd teuluoedd wedi'i rannu am eu profiad wedi'i gofnodi.

Wrth nodi'r manylion yn yr adroddiad, dywedodd G Dix fod yr adroddiad yn deg a chytbwys, a'i fod yn nodi'n glir ymhle y digwyddodd y methiannau, a bod hynny wedi'i dderbyn. Byddai gwaith yn cael ei wneud yn awr i sicrhau na fyddai'r camgymeriadau'n cael eu hailadrodd.

Yn dilyn trafodaeth fanwl, codwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau:

- Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch a oedd y gwasanaeth wedi symud ymlaen o fod yn un a gai ei ystyried yn un oedd â diwylliant cosbol. Sicrhodd V Wilson fod ffyrdd newydd o weithio bellach ar waith, gyda'r staff yn teimlo'n hapus i godi pryderon os ydynt yn teimlo bod rhywbeth o'i le. Rhannwyd y gwersi a ddysgwyd ar draws y gwasanaeth cyfan, ac roedd y staff yn teimlo'n fwy cadarnhaol am eu hamgylchedd gwaith. Ychwanegodd V Wilson, lle byddai unrhyw achosion mawr y gellir eu haddasu, y byddai gwaith yn cael ei wneud gyda staff trwy brosesau a nodwyd.
- Dywedodd P Mears ei fod wedi cwrdd yn ddiweddar â'r Tîm Gwasanaethau Mamolaeth ac ychwanegodd fod y Tîm bellach yn arwain y ffordd mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud ynghylch diwylliant. Ychwanegodd P Mears ei fod wedi gwahodd V Wilson a'r Tîm i ddod i gyfarfod Bwrdd yn y dyfodol i gyflwyno'r gwaith a wnaethant yn fanylach.
- Gofynnodd M K Thomas am gadarnhad bod cymorth yn cael ei roi i staff i baratoi ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad hwn. Sicrhodd V Wilson yr Aelodau fod pecyn cymorth cynhwysfawr yn ei le ar gyfer staff, wedi'i gefnogi gan gydweithwyr Undeb Llafur.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

4.3

Ymyrraeth wedi'i Thargeddu - Rhaglen ar gyfer Gwelliant Parhaus yn sgil Ymyrraeth wedi'i Thargeddu

Wrth gyflwyno'r diweddariad, soniodd G Galletly am sefyllfa'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas ag Ymyrraeth wedi'i Thargeddu a Mesurau Arbennig a chanlyniad yr hunanasesiad cyfunol a gynhaliwyd ym mis Medi 2020.

Nododd yr Aelodau y cafwyd hunanasesiad pellach ym mis Ionawr 2021 a chyflwynir y canlyniad i'r Bwrdd i'w gymeradwyo gan gydnabod y cynnydd da a wnaethpwyd mewn rhai meysydd.

Canolbwyntiodd yr Aelodau at lefel 3 yn cael ei dyfarnu i adran 2.8 - Cynnwys ac Ymgysylltu â Staff, yng ngoleuni canlyniadau Diweddariad Arolwg Staff GIG Cymru yn 4.8 ar yr agenda. Ar ôl trafod manwl, cytunodd G Galletly i gynnal adolygiad pellach o'r asesiad yn y maes hwn ac yn y cyfamser cynigiodd fod y Bwrdd yn adfer y sgoriau hunanasesu a gytunwyd ym mis Medi 2020.

Holodd M K Thomas, er eglurder, pa drafodaethau a gafwyd o fewn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â llithriant yn erbyn y cynllun gwella o ganlyniad i effaith Covid-19. Mewn ymateb, dywedodd P Mears fod trafodaeth wedi'i chynnal gydag Andrew Goodall ac y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu cyn hir i drafod cynnydd yn fanylach.

Holodd M Jehu, er eglurder, am y cynnydd cyfyngedig a wnaethpwyd yn erbyn 'Ysbrydoli Diben a Rennir' a holodd a oedd unrhyw rwystrau i hyn. Dywedodd P Mears mai'r flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd dros y 12 mis nesaf fyddai cyfleu'r weledigaeth yn glir i'r Bwrdd Iechyd a'r strategaeth wrth symud ymlaen.

Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** adfer y Sgoriau Hunanasesu a gytunwyd ym mis Medi 2020.

Cam Gweithredu: Cynnal adolygiad pellach o Adran 2.8 yng ngoleuni'r trafodaethau yn y Bwrdd. G Galletly.

4.4

DIWEDDARIAD YNGHYLCH AROLWG STAFF GIG CYMRU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd H Daniel y bu'r gyfradd ymateb yn isel iawn o'i chymharu â chyfraddau ymateb yr arolwg yn 2018 a 2020, ac yn llawer is na chyfartaledd Cymru. Wrth archwilio'r rhesymau dros y gyfradd ymateb wael, nododd y Bwrdd effaith amseru'r arolwg a oedd yn cyd-daro â'r cyfnod clo byr Covid-19, sef yr adeg pan oedd llawer iawn o absenoldeb staff a gweithgarwch yn BIPCTM o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

Amlygodd H Daniel yr adborth gan staff a'r camau nesaf a gymerir mewn ymateb i'r arolwg.

Dywedodd I Wells y byddai angen ymateb i'r adborth a gafwyd, er bod y gyfradd ymateb yn isel, ac ychwanegodd ei fod yn falch o weld y byddai'r

canlyniadau bellach yn cael eu dadansoddi. Mewn ymateb, cadarnhaodd H Daniel fod y Grwpiau Lleoliad Integredig (ILG) yn awyddus i gymryd perchenogaeth leol ar y materion a nodwyd.

Dywedodd K Montague ei fod yn siomedig o dderbyn yr adroddiad hwn, ond cydnabu y byddai'n cymryd amser i ymgorffori'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd a newid y diwylliant mewn sefydliad o'r maint hwn. Diolchodd H Daniel i K Montague am ei sylwadau a dywedodd ei fod yn teimlo bod gan y Bwrdd Iechyd gynllun cadarn ar waith i wireddu'r newid diwylliant hwn, a bod adborth cadarnhaol yn dod oddi wrth staff yn ogystal â rhannu gwersi a ddysgwyd lle mae angen gwelliant pellach.

Dywedodd P Mears fod canlyniadau'r Arolwg Staff hefyd wedi'u trafod yn y Bwrdd Rheoli ddoe lle cytunwyd bod angen cynllunio'n awr ar gyfer yr arolwg staff nesaf, er mwyn rhoi digon o amser i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr arolwg yn cael ei dargedu'n effeithiol o fewn y sefydliad, gan ddefnyddio'r dulliau cywir i gyrraedd y staff i gyd.

Yn ôl N Milligan, er bod mwyafrif y staff yn dweud eu bod wedi ymlâdd, dywedodd 86% o staff y byddent yn mynd yr ail filltir er mwyn rhoi cleifion a chymunedau'n gyntaf, a dywedodd fod angen cydnabod hynny. Diolchodd y Cadeirydd i N Milligan am amlygu hyn a chytunodd y byddai angen cydnabod hyn.

Dywedodd J Sadgrove ei bod yn llwyr gefnogi'r angen am driongli ac ychwanegodd y byddai angen arfarnu a oedd y newidiadau a roddwyd ar waith yn gwneud gwahaniaeth i staff. Ychwanegodd J Sadgrove ei bod yn ymddangos bod sgoriau llawer is ar lefel Grŵp Lleoliad Integredig a dywedodd y byddai angen cynnal adolygiad ar amrywiol rannau o'r sefydliad, gan ddatblygu cynllun gweithredu y gellid ei rannu gyda staff er mwyn amlygu'r gwaith a oedd yn cael ei wneud.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan M Jehu mewn perthynas â staff yn teimlo nad oeddent yn rhan o'r broses benderfynu, dywedodd P Mears y byddai angen mynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen, ac y byddai'n bwysig i staff deimlo'n gyfforddus wrth gyflwyno syniadau ac awgrymiadau.

Diolchodd y Cadeirydd i'w gydweithwyr am y drafodaeth fanwl a gafwyd, gan ychwanegu ei fod yn teimlo wedi'i galonogi gan y ffaith fod hyn yn cael ei gymryd o ddifrif.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad ac y byddai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn monitro cynnydd a wneir yn erbyn y cynllun gwella o hyn ymlaen.

5. GWAITH GYDA CHYMUNEDAU A PHARTNERIAID I DRECHU ANGHYDRADDOLDEB, HYBU LLESIANT AC ATAL SALWCH

5.1 Diweddariad ynghylch Iechyd y Cyhoedd – Ymateb i Bandemig COVID-19

Rhoddodd K Nnoaham y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr ymateb i'r pandemig, gyda dec sleidiau'n amlygu'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Cyfraddau Heintio Dyddiol, Cyfraddau Positifedd a Chyfraddau Cronnus.
- Effeithiolrwydd trefniadau'r Cyfnodau Clo
- Cyfraddau derbyn i'r ysbyty a derbyn cleifion Gofal Critigol
- Manteisio ar brofion ymhlith poblogaeth y Bwrdd Iechyd.

Nododd yr Aelodau fod yr wybodaeth a roddwyd yn dangos bod poblogaeth y Bwrdd Iechyd dan anfantais anghymesur yn sgil Covid-19 a bod angen gweithio gyda'n cymunedau i fynd i'r afael â'r ffactorau risg sylfaenol.

Wrth gloi'r diweddariad, mynegodd K Nnoaham ei gydymdeimlad diffuant â'r holl deuluoedd a oedd wedi colli anwyliad yn ystod y pandemig hwn, a dywedodd fod gobaith o ddod â'r pandemig i ben wrth i'r rhaglen frechu gael ei chyflwyno fesul dipyn.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan I Wells ynghylch y strategaeth brofi gwrthdro wrth symud ymlaen, ac a oedd unrhyw fudd i brofi cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME), dywedodd K Nnoaham fod tystiolaeth anuniongyrchol fod llai'n manteisio mewn ardaloedd lle'r oedd risgiau mwy, ac ychwanegodd y byddai cynllun yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â datblygu profi yn y gymuned.

Holodd M K Thomas a ellid ystyried adfer y gwaith a wnaethpwyd yn flaenorol ar faterion iechyd y boblogaeth yng nghymunedau'r Cymoedd, ac mewn ymateb dywedodd K Nnoaham fod cyllid wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer segmentu iechyd y boblogaeth.

Penderfyniad: **NODWYD** y diweddariad.

5.2 Diweddariad ynghylch Brechu rhag COVID-19 – Dull BIP CTM o gyflawni'r Rhaglen Frechu

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a dywedodd fod y Bwrdd Iechyd, hyd at heddiw, wedi rhoi 48,956 o frechiadau ar draws BIPCTM, a bod hynny'n gyflawniad aruthrol. Diolchodd C Williams i'r holl staff ar draws ystod o sefydliadau a fu'n rhan o gyflawni hyn.

Nododd yr Aelodau y pwyntiau allweddol canlynol:

- Y dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â brechiadau, a bod ffocws yn cael ei osod ar frechu grwpiau blaenoriaeth 1-4.
- Bod brechlyn Pfizer yn cael ei ddefnyddio i frechu staff a phreswylwyr cartrefi gofal, staff rheng flaen a phobl dros 70 oed. Bod brechlyn Rhydychen yn cael ei ddefnyddio i frechu cleifion mewn meddygfeydd teulu, timau cymunedol, a phobl dros 75 oed a phobl a oedd yn hynod agored i niwed yn glinigol.
- Bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Fferyllfeydd Cymunedol mewn perthynas â'u gallu i frechu.

- Bod y Bwrdd Iechyd hanner ffordd at frechu ei holl grwpiau blaenoriaeth a'i fod ar y trywydd cywir i gyrraedd dyddiad targed 14 Chwefror ar gyfer brechu ei holl grwpiau blaenoriaeth. Dywedodd C Williams y byddai'r Bwrdd Iechyd, erbyn y penwythnos, wedi brechu pawb dros 80 ac y byddai wedi ymweld â phob cartref gofal i frechu pawb a oedd yn feddygol ffit. Byddai ailymweliadau'n cael eu cynnal â Chartrefi Gofal i sicrhau bod gweddill y cleifion yn cael eu brechu pan fyddent yn feddygol ffit.
- Heriau a risgiau cysylltiedig â'r rhaglen, a oedd yn cynnwys cyflenwad anwadal, problemau cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a oedd wedi gwella'n ddiweddar a materion o ran oedi gyda chofnodi data, a oedd hefyd bellach yn gwella.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan ynghylch gwastraffu brechlynnau, cadarnhaodd C Williams fod gwastraff yn isel iawn ledled Cymru ac o fewn y Bwrdd Iechyd. Nododd yr Aelodau fod un ffiol wedi'i cholli o ganlyniad i'w bwrw drosodd yn ddamweiniol, ac ychwanegodd fod stoc sy'n weddill yn cael ei symud i leoedd eraill lle mae angen stoc.

Diolchodd y Cadeirydd i C Williams am gyflwyno'r adroddiad ac am yr holl waith caled a oedd yn cael ei wneud ganddi hi a'i Thîm.

Penderfyniad: **CYMERADWYBYD** y Cynllun Brechu Torfol Covid-19 diweddaraf ar gyfer Cyfnod 1.
NODWYD yr adroddiad.

6.1 Cofrestr Risg y Sefydliad

Wrth gyflwyno'r gofrestr risg, amlygodd C Hamblyn y cynnydd parhaus a fynegwyd yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau fod pedwar risg newydd wedi'u hychwanegu at y Gofrestr Risg, gan gynnwys y risg Trosglwyddo Gofal rhwng Sifftiau Ambiwylans a drafodwyd yn ddiweddar yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Dywedodd C Hamblyn fod nifer o risgiau hefyd wedi'u llacio a'u cau.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o Reoli Risg ar ddiwedd 2020 a bod adroddiad cadarnhaol wedi'i gael bellach gyda chasgliad o Sicrwydd Rhesymol.

Croesawodd I Wells y gwelliant a wnaethpwyd a holodd am y dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â risgiau lle'r oedd sgoriau risg wedi parhau'n ddigyfnewid ers amser maith. Mewn ymateb, dywedodd C Hamblyn fod gwaith pellach wedi dechrau ar y cyd â chydweithwyr Grŵp Lleoliad Integredig i adolygu camau a mesurau rheoli i'w cymryd i sicrhau eu bod yn effeithiol o hyd yn lleihau'r risg, ond nododd fod y ffocws gweithredol a chlinigol ar ymateb y Bwrdd Iechyd i Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd yr adolygiad.

Adleisiodd J Sadgrove y sylwadau a wnaed gan I Wells a gofynnodd am eglurder ynghylch y risg cysylltiedig ag uwchraddio telathrebu ac a oedd y system delathrebu ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn briodol ac a fyddai systemau'n gydnaws. Dywedodd C Williams y byddai'n ymchwilio i hyn y tu allan i'r cyfarfod ac yn dychwelyd at J Sadgrove gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

- Penderfyniad:
- **NODWYD** y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Gwella Rheoli Risg; a
 - **CHYMERADWYWYD** yr argymhellion mewn perthynas â Risgiau Newydd, Risgiau wedi'u Llacio, Risgiau wedi'u Diweddarau a Risgiau wedi'u Cau.

6.2 Y Strategaeth Rheoli Risg

Cyflwynodd C Hamblyn y Strategaeth Rheoli Risg a'r adolygiad sylweddol a gynhaliwyd i adlewyrchu'r cynnydd hyd yma a chydredeg yn fwy priodol â'r model gweithredu newydd yn y Bwrdd Iechyd.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn galonogol gweld y gwelliannau a wnaethpwyd.

- Penderfyniad: **CYMERADWYWYD** y Strategaeth Rheoli Risg a'r atodiadau allweddol perthynol.

6.3 Y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a chadarnhaodd fod yr adroddiad bellach yn cynnwys llifoedd gwybodaeth o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru fel y gofynnwyd amdanynt gan aelodau, ac ychwanegodd y byddai'r Bwrdd yn parhau i gael gwybod am y sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M K Thomas mewn perthynas â gweithgarwch dewisol a'r llai o allu yn y sector preifat, dywedodd G Robinson fod gwaith yn cael ei wneud gyda Grwpiau Lleoliad Integredig a Thimau Gweithredol i ddatblygu rhaglen adferiad gofal wedi'i gynllunio, a'r gobaith oedd y byddai'r cynllun yn cael ei ddatblygu dros y 4-6 wythnos nesaf. Dywedodd G Robinson y byddai'n fodlon rhannu'r cynllun hwn gyda'r Bwrdd pe byddai gofyn am hynny. Dywedodd y Cadeirydd fod y Bwrdd yn ymwybodol o'r rhaglen gynyddol a oedd yn wynebu'r Bwrdd Iechyd.

Nododd N Milligan fod y Gydymffurfiaeth Dychwelyd i'r Gwaith wedi cwmpo unwaith eto.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan N Milligan mewn perthynas â chleifion a fu'n aros uchafswm o 87 wythnos, cadarnhaodd N Lyons fod dau o'r tri chlaf wedi'u gweld bellach, a bod angen trafodaeth bellach mewn perthynas â'r trydydd claf.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.0 SICRHAU CYNALIADWYEDD ECONOMAIDD, AMGYLCHEDDOL A CHYMDEITHASOL YM MHOPETH A WNAWN

7.1 Cynllun Tymor Canolig Integredig

Cyflwynodd C Williams yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad wedi'i lunio ar adeg pan oedd cynllunio yn y sefyllfa fwyaf heriol erioed o ran cynllunio tymor canolig i dymor hir. Dywedodd C Williams ei bod yn bwysig i'r Bwrdd gael gwybod am gymhlethdod yr heriau a bod camau'n cael eu cymryd i ddatblygu ysgerbwdd cynllun i alluogi cydweithwyr clinigol i ganolbwyntio ar y sefyllfa Covid-19.

Nododd yr Aelodau y byddai nifer o gamau gweithredu'n cael sylw yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael cynllun i'w gymeradwyo ym mis Mawrth 2021. Ychwanegodd C Williams y byddai'r Bwrdd yn cael gwybod am y cynnydd diweddaraf drwy sesiynau Datblygu Bwrdd.

Dywedodd S Webster y byddai cynllun ariannol yn cael ei ddatblygu mewn tair rhan a oedd yn cynnwys y cynllun craidd a'r cynllun ymateb i Covid-19. Nododd yr Aelodau na ellid bellach cyflawni cynllun galluogi ac nad oedd arbedion wedi'u sicrhau yn y flwyddyn gyfredol o ganlyniad i effaith Covid-19, gan arwain at yr angen am arbedion uwch ynghyd â heriau eraill wrth ailosod. Dywedodd S Webster y byddai angen trafod goblygiadau hyn ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan M K Thomas mewn perthynas â chynlluniau Cystyrau Gofal Sylfaenol, dywedodd C Williams fod gofyn i Glystyrau Gofal Sylfaenol ailystyried a diweddarau eu cynlluniau o'r flwyddyn ddiwethaf, ac ychwanegodd y byddai'r cynlluniau hyn bellach yn rhan o'r cynlluniau Grŵp Lleoliad Integredig, a fyddai'n cael eu hymgorffori yng nghynllun cyffredinol y Bwrdd Iechyd.

Penderfyniad:

- **CYMERADWYWYD** y canllawiau cynllunio a'r rhagdybiaethau cynllunio fel y'u nodwyd yng nghanllawiau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (atodiad 2).
- **ADOLYGWYD** y camau gweithredu ar gyfer blaenoriaethu'r datblygiadau gwasanaeth a gwaith galluogi y ceisir eu symud yn eu blaenau yn 2021-22.
- **ADOLYGWYD** y camau a gweithredu a neilltuwyd i'r Arweinwyr Gweithredol er mwyn sefydlu Cynllun Ariannol lefel uchel erbyn diwedd mis Ionawr.
- **ADOLYGWYD** y cais am bwyslais ar yr amcanion gwella Gofal wedi'i Gynllunio y gellir eu rhannu gyda Grwpiau Lleoliad Integredig i lywio datblygiad eu cynlluniau yn barod i'w cyflwyno ddiwedd mis Chwefror.
- **NODWYD** y cynnydd hyd yma o ran datblygu'r cynllun a'r camau nesaf a gynlluniwyd er mwyn ei gyflenwi.

7.2

ADRODDIAD DIWEDDARIAD ARIANNOL

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a dywedodd fod y tanwariant cyffredinol a ragamcanwyd wedi cynyddu o £17.1m i £19.8m, a dyma bellach oedd y rhagamcaniad dychwelyd dyraniad i Lywodraeth Cymru os nad oedd unrhyw addasiad blwyddyn flaenorol. Nododd yr Aelodau fod hyn oherwydd anallu'r Timau i gyflenwi mewn perthynas â'u cynlluniau gaeaf a'r llithriant mewn perthynas â nifer o fentrau. Nododd yr Aelodau hefyd y byddai angen cadarnhau'r gwarged a ragamcanir er mwyn rhyddhau adnoddau yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

7.3

Cyfrifon Cronfa Elusennol Gyffredinol GIG BIPCTM ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer yr elusen a'i hamcanion, ac sy'n crynhoi'r incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn a sut mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr am y tro cyntaf, gan arwain at gynyddu gwerth y gronfa o £2.2m i £3.1m. O ganlyniad i'r cynnydd hwn o ran maint roedd archwiliad llawn yn ofynnol gan arwain at ffi archwilio uwch o £38k.

Dywedodd M Jones fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon 2019/2020 ac ychwanegodd fod rhai materion yr oedd Archwilio Cymru am eu hadrodd i'r Bwrdd eu hystyried cyn cymeradwyo'r cyfrifon, a amlinellwyd yn adroddiad Archwilio Cymru. Nododd yr Aelodau y byddai angen llofnodi'r cyfrifon yn ddiweddarach heddiw er mwyn i'r cyfrifon gael eu hardystio gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Nododd yr Aelodau y pwyntiau allweddol canlynol:

- Nad oedd unrhyw gamddatganiadau oedd heb eu cywiro.
- Bod unrhyw addasiadau a wnaed wedi'u nodi yn yr adroddiad.
- Bod un argymhelliad wedi'i wneud, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Diolchodd M Jones i'w gydweithwyr Cyllid, yn enwedig D Varsani, am yr holl gymorth a roddwyd yn ystod y broses.

Croesawodd I Wells yr adroddiad a chydabu'r gymeradwyaeth a roddwyd i'r Tîm Cyfrifon am yr holl gymorth a roddwyd ganddynt.

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn cael ei drafod gan fod y Bwrdd yn Ymddiriedolwyr i Gronfeydd Elusennol Cyffredinol y GIG.

Penderfyniad: Penderfynodd Ymddiriedolwr Corfforaethol Cronfa Elusennol Gyffredinol GIG BIPCTM:

- **GYMERADWYO** yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.
- **AWDURDODI** y Cadeirydd i lofnodi'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ar ran yr Ymddiriedolwr Corfforaethol a llofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth.
- **NODI** y cynnydd yng nghost y ffi archwilio allanol.

8.0 ADRODDIADAU CRYNHOI GAN BWYLLGORAU

8.1 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Cyflwynodd I Wells yr adroddiad a dywedodd fod y materion a oedd angen eu huwchgyfeirio at y Bwrdd yn cynnwys yr Adolygiadau Archwilio Mewnol a oedd mewn statws drafft a oedd yn debygol o gael sgôr Sicrwydd Cyfyngedig. Codwyd pryderon hefyd mewn perthynas â'r Traciwr Archwilio ac amseroldeb y diweddariadau a gai eu darparu. Nododd yr Aelodau fod cais wedi'i wneud gan y Pwyllgor am i'r Tîm Gweithredol gynnal adolygiad o'r sefyllfa ar y cyd â chydweithwyr Archwilio er mwyn adolygu'r traciwr archwilio a chau cynifer o argymhellion â phosibl.

Mewn perthynas â'r gofrestr risg sefydliadol, dywedodd I Wells fod y Pwyllgor wedi gwneud sylwadau am y risgiau lle'r oedd y sgoriau risg wedi aros yn ddigyfnewid ac roedd yn falch o nodi bod y rhain bellach yn cael sylw.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

8.2 Adroddiad Crynhoi'r Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid

Dywedodd M Jehu fod y Pwyllgor wedi dymuno amlygu dau fater i'r Bwrdd; y naill oedd adroddiad cyllid Mis 8 a oedd bellach wedi newid, a'r llall oedd pryderon a godwyd mewn perthynas ag amseroedd aros am Wasanaethau Niwroddatblygiad, gyda rhai cleifion yn aros amser maith am asesiad a thriniaeth. Nododd yr Aelodau fod y mater hwn wedi'i gyfeirio hefyd at y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Penderfyniad: **NODWYD** yr adroddiad.

9.0 UNRHYW FATERION ERAILL

9.1 Llywodraethiant Covid-19

Atgoffwyd yr Aelodau fod cam gweithredu brys y Cadeirydd wedi'i gymryd i barhau i gadw Pwyllgorau oddi ar ddyletswydd tan ddiwedd mis Chwefror, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Dywedodd G Galletly fod cytundeb wedi'i roi, ar ôl trafodaeth gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, i adolygu'r sefyllfa mewn pythefnos er mwyn sicrhau y byddai'r Bwrdd mewn sefyllfa i adfer y Pwyllgorau o fis Mawrth ymlaen.

Nododd yr Aelodau fod cyfarfod Bwrdd wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror ac y byddai Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn cael ei gynnal yn ei le i ganolbwyntio ar berfformiad.

Penderfyniad: **NODWYD** y sefyllfa.

10. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS NESAF

Dydd Iau 25 Mawrth 2021 am 9:30am.